# Adroddiad Blynyddol y Grŵp Trawsbleidiol.

# 2013-2014

# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Fenywod yn yr Economi

**Datganiad gan y Cadeirydd**

Rwy'n ddiolchgar i aelodau'r Grŵp Trawsbleidiol am fy ethol fel eu Cadeirydd cyntaf, ac am eu cyfranogiad brwd i drafodaethau'r Grŵp. Rydym wedi ystyried pynciau amrywiol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac mae ein trafodaethau wedi rhoi dirnadaethau newydd a gwahanol i faterion fel cyflogau cyfartal a rhwystrau i lwyddiant. Hoffwn ddiolch yn arbennig i'r tîm yn Chwarae Teg am eu gwaith wrth gynorthwyo i drefnu ein cyfarfodydd.

**Christine Chapman AC**

## 1. Aelodaeth y Grŵp a deiliaid swyddi.

Christine Chapman AC (Cadeirydd)

Jocelyn Davies AC

Janet Finch-Saunders AC

Eluned Parrott AC

Dr Victoria Winckler, Sefydliad Bevan;

Dr Alison Parken, Prifysgol Caerdydd

Shirley Rogers, Gyrfa Cymru

Joy Kent, Chwarae Teg

Christine O'Byrne (Chwarae Teg)

Dr Rachel Bowen, Ffederasiwn y Busnesau Bach

Helen Humphrey, Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru

## 2. Cyfarfodydd Blaenorol y Grŵp ers y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol diwethaf.

### Cyfarfod 1.

***Dyddiad y cyfarfod:*** **23 Hydref 2013**

*Yn bresennol:* Christine Chapman AC**, Llafur (Cadeirydd)**
Jocelyn Davies AC, Plaid Cymru
Janet Finch-Saunders AC, Ceidwadwyr
Eluned Parrott AC (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru)
Laura Dunn, swyddfa Rosemary Butler AC
Victoria Evans, Swyddfa Christine Chapman AC
Ian Johnson, Plaid Cymru
Osian Lewis, Swyddfa Alun Ffred Jones AC
Dr Rachel Bowen, Rheolwr Polisi Cymru, Ffederasiwn y Busnesau Bach
Joy Kent, Prif Weithredwr, Chwarae Teg
Christine O'Byrne, Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus, Chwarae Teg **(Ysgrifennydd)**
Helen Reed, Swyddog Cefnogi Polisi, Chwarae Teg
Shirley Rogers, Cyfarwyddwr Rhanbarthol, Gyrfa Cymru

***Crynodeb o'r materion a drafodwyd:***
**Rhannwyd y prif ganfyddiadau o waith ymchwil gan Chwarae Teg, "Lle y Fenyw", a thrafodwyd hwy, gan gynnwys:**

- **Mae anghydraddoldeb y tu allan i'r gweithle yn creu anghydraddoldeb o fewn iddo.**
- **Mae stereoteipiau pwerus yn parhau o ran swyddi priodol ar gyfer dynion a menywod.**
- **Cyflogaeth yw'r norm i fenywod, ond eto nid ydym wedi cyflawni cydraddoldeb.**
- **Mae rhagor o fenywod yn gweithio, ond yn gweithio rhan-amser.**
- **Mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn parhau.**
- **O ran sgiliau a chynnydd, mae merched yn perfformio'n well na bechgyn yn yr ysgol ac mae rhagor o fenywod wedi cymhwyso i lefel 4 yng Nghymru, ond eto mae menywod yn dal i grynhoi mewn swyddi sy'n gofyn am lai o sgiliau ac sy'n talu cyflogau isel.**
- **Parheir i ystyried menywod yn ofalwyr yn gyntaf ac yn enillwyr yn ail, ac er bod rhagor o gyfleoedd i weithio'n hyblyg, mae'r diffyg gofal plant fforddiadwy yn dal i gael ei ystyried fel y rhwystr mawr i gyflogaeth lawn-amser.**
- **Yn nodedig, ymddengys nad oedd 25% o'r menywod a holwyd yn cael arfer eu hawliau statudol, ac ymddengys nad oedd 15% o gyflogwyr wedi bodloni eu cyfrifoldebau statudol.**

## <u>Cyfarfod 2.</u>

***Dyddiad cyfarfod:*** **5 Chwefror 2014**

***Yn bresennol:*** Christine Chapman AC, (Cadeirydd)
Mohammad Asghar AC
Julie Morgan AC
Joyce Watson AC
Laura Dunn, swyddfa Rosemary Butler AC
Robin Lewis - Swyddfa Christine Chapman AC
Sian Mule, swyddfa Julie Morgan AC
Neil Ronconi-Woollard, swyddfa Julie James AC
Elizabeth Laird – Ymchwilydd i David Melding AC
Joy Kent, Prif Weithredwr, Chwarae Teg
Christine O'Byrne, Rheolwr Polisi ac Ymchwil, Chwarae Teg
Anne Howells, Cydgysylltydd Polisi, Chwarae Teg
Dr. Alison Parken, Uwch Gymrawd Ymchwil, Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol, Prifysgol Caerdydd
Emma Richards, Chwarae Teg
Alison Howe, Cynghorydd Gyrfaoedd, Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu
Kate Attwood, Hyrwyddwr Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu
Emma Saunders, Suterra
Alex Tranter, Tai Ceredigion
Dr Rachel Bowen, Ffederasiwn y Busnesau Bach
Nina Prosser, Ymddiriedolaeth y Tywysog
Hannah Blythyn, Unite
Belinda Robertson, Unite
Rebecca Newsome, Ymddiriedolaeth y Tywysog
Helen Humphrey, Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru
Rachel Maude, BT
Catrin Owen, Tai Ceredigion
Charlotte James- Prifysgol Abertawe
Shirley Rogers, Gyrfa Cymru

***Crynodeb o'r materion a drafodwyd:***

**Y pwnc ar gyfer y cyfarfod hwn oedd arwahanu ar sail rhyw a chyflog cyfartal.**

**Y siaradwyr gwadd oedd Dr Alison Parken, Emma Richards, Alison Howe, Kate Atwood, Emma Whitworth ac Alex Tranter.**

**Nodwyd yn ystod y drafodaeth:**

- **Bod angen gwell dealltwriaeth o ran pam nad yw menywod yn dod i weithio ym maes diwydiant/ am gael eu dyrchafu.**
- **Y gellid cael un man penodol ar gyfer cael gwybodaeth am gydraddoldeb rhywiol yng Nghymru.**

- **Mae cyflogau isel mewn rolau rhan-amser yn ffactor sy'n cyfrannu at dlodi mewn gwaith.**
- **Ni fydd y cyflog byw yn gwneud llawer o wahaniaeth.**
- **Mae credyd cynhwysol yn broblem hefyd.**
- **A fyddai modd sicrhau telerau ac amodau gwell drwy gaffael?**
- **Prif ffrydio ymwybyddiaeth o gydraddoldeb rhwng y rhywiau i hyfforddiant athrawon, y gwasanaeth gyrfaoedd ac ati, a sicrhau y caiff y gweithwyr hyn eu datblygu'n barhaus yn eu proffesiynau.**
- **Dylai gofalu, a materion o ran gweithio'n rhan amser gynnwys ac ystyried gofalu am aelodau hŷn yn y teulu hefyd.**
- **A fyddai'n bosibl cyfeirio doniau sydd ar gael yng Nghymru, yn hytrach na dod a gweithwyr o'r tu allan?**
- **Mae angen dull gweithredu holistaidd o ran prentisiaethau, tiwtoriaid a mentoriaid benywaidd.**

**Hefyd, cytunodd y grŵp ar gamau gweithredu ar gyfer Llywodraeth Cymru:**

- **Dylid datblygu cyfleuster canolog ar-lein a fyddai'n cadw pob gwybodaeth berthnasol, i hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y rhywiau. Byddai hyn yn cynnwys ymchwil perthnasol, cyngor gyrfaoedd i ferched a chefnogaeth i gyflogwyr.**
- **Dylid sicrhau bod Sefydliadau Addysg Bellach yn croesawu merched a bechgyn, a'u bod yn gefnogol i'r ddau ryw sy'n dilyn cyrsiau lle y mae'r mwyafrif o'r myfyrwyr o'r rhyw arall. Byddai hyn yn cynnwys sicrhau eu bod yn darparu cyfleusterau digonol ar gyfer myfyrwyr a thiwtoriaid, a bod y deunydd yr un mor berthnasol a chroesawgar i'r ddau ryw.**
- **Dylid datblygu cynllun modelau rôl i hybu gyrfaoedd y mae mwy o ddynion na menywod yn eu dilyn ar hyn o bryd.**
- **Dylid annog rhagor o diwtoriaid a mentoriaid benywaidd yn y sectorau ble y mae mwy o ddynion na menywod, i gefnogi prentisiaethau (byddai hyn yn cynnwys cymorth cyn dechrau ar brentisiaeth).**
- **Dylid darparu data ar faint o bobl sy'n manteisio ar brentisiaethau, wedi'u rhannu fesul rhyw, fesul sector a fesul swydd.**
- **Dylid sicrhau bod gwell telerau ac amodau gwaith i fenywod, drwy drefn gaffael y sector cyhoeddus.**
- **Dylid sicrhau bod hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o gydraddoldeb rhwng y rhywiau yn cael ei ddarparu ar gyfer pob athro a chynghorydd gyrfaoedd o fewn fframwaith eu cymwysterau cychwynnol, a'u datblygiad proffesiynol parhaus.**

## <u>Cyfarfod 3.</u>

***Dyddiad cyfarfod:*** **4 Mehefin 2014**

***Yn bresennol:*** Christine Chapman AC, (Cadeirydd)
Jocelyn Davies AC
Julie James AC
Ioan Bellin, Swyddfa Simon Thomas AC
Laura Dunn, swyddfa Rosemary Butler AC

Robin Lewis - Swyddfa Christine Chapman AC
Mark Major, Swyddfa Suzy Davies AC
Neil Roncon-Woodward, swyddfa Julie James AC
Katy Chamberlain, Business in Focus
Natasha Davies, Chwarae Teg
Ruth Davies, Iechyd Cyhoeddus Cymru
Rhiannon Hedge, Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr
Anne Howells, Chwarae Teg
Helen Humphrey, Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru
Norma Jarboe, Mae Menywod yn Cyfrif
Dr Barrie Kennard, Arweinyddiaeth a Rheolaeth Cymru
Joy Kent, Chwarae Teg
Yr Athro April McMahon, Is-Ganghellor Prifysgol Aberystwyth
Alison Parken, WAVE (Menywod yn Ychwanegu Gwerth at yr Economi) Prifysgol Caerdydd
Amy Preece, Menywod yn Gwneud Gwahaniaeth
Nina Prosser, Ymddiriedolaeth y Tywysog
Kieron Rees, Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr
Jessica Rumble, Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr
Beth Titley, Gyrfa Cymru

***Crynodeb o'r materion a drafodwyd:***
**Y pwnc ar gyfer y cyfarfod hwn oedd arweinyddiaeth a chynnydd.**

**Y siaradwyr gwadd oedd: Dr Barrie Kennard, Rhiannon Hedge, Joy Kent, Helen Humphrey ac April McMahon.**

**Nodwyd yn ystod y drafodaeth:**

- **Bod angen mynd i'r afael â diffyg hyder, a pherthynas hyn â dyrchafiadau.**
- **Rhagfarn anymwybodol, a bod angen i rai sy'n cyfweld sefyll y prawf cyn cynnal cyfweliadau.**
- **Er bod cwotâu yn amhoblogaidd, efallai bod eu hangen arnom fel mesur dros dro, nes y bydd gennym feritocratiaeth.**
- **Mae angen gofyn i'r sector preifat wneud yr un fath â'r sector cyhoeddus.**
- **Angen mynd i'r afael â'r mater o gynnydd mewn gwaith rhan-amser.**
- **Gall y defnydd o iaith fod yn rhwystr a pheri bod swyddi yn ymddangos yn wrywaidd.**
- **A oes angen gair gwahanol ar gyfer cwotâu? "Cynrychiolaeth deg" o bosibl.**

- **Mae adroddiad yr Arglwydd Davies yn defnyddio iaith nodau uchelgeisiol, ac yn gosod nodau ar gyfer amrywiaeth. Mae angen hyrwyddwr a dulliau meincnodi tryloyw.**
- **Mae ofn na fydd amrywiaeth yn dilyn, oni bai ein bod yn mynd i'r afael â materion amrywiaeth yn ehangach, yn ogystal â materion rhyw.**
- **Mae dyletswydd i ryddhau ystadegau am faterion rhywedd a materion amrywiaeth eraill.**
- **Beth a gawn gan y prif gyflogwyr yng Nghymru? Sut y dylem gael y prif gyflogwyr o'n plaid? E.e. Admiral.**
- **Mae'n bwysig bod y Grŵp Trawsbleidiol yn cyfrannu at faniffestos y pleidiau.**

**Hefyd, cytunodd y grŵp ar gamau gweithredu ar gyfer Llywodraeth Cymru:**

- Dylid ei gwneud yn ofynnol i fusnesau cyhoeddus a phreifat gasglu a chyhoeddi ystadegau ar faterion rhywedd a materion amrywiaeth eraill i sicrhau y gellir meincnodi mewn modd tryloyw.
- Dylid annog recriwtwyr i sefyll prawf rhagfarn anymwybodol cyn recriwtio, i ddangos eu rhagfarn anymwybodol ac i alluogi iddynt ymdrin â'r rhagfarn hwnnw.
- Dylid annog cwmnïau preifat i osod nodau ar gyfer amrywiaeth, ac enwebu hyrwyddwyr mewnol i'w helpu i gyflawni'r nodau hyn.
- Dylid defnyddio dyletswyddau cyhoeddus i hyrwyddo cydraddoldeb mewn polisïau caffael.
- Dylid ymchwilio i'r pum sector amlycaf yng Nghymru sy'n profi'r rhwystrau mwyaf i fenywod sy'n cyrraedd rolau arweinyddiaeth, a hwyluso sgwrs rhyngddynt am y ffordd orau i oresgyn y rhwystrau hynny, gyda'r bwriad eu bod hwy'n arwain y ffordd.
- Dylid edrych yn fanwl beth yw'r rhesymau pam y mae gweithio'n rhan-amser yn rhwystr i gynnydd gyrfaoedd, a chymryd camau i ymdrin â hyn.
- Dylid trefnu seminar ar gwotâu er mwyn hwyluso trafodaeth wybodus a chynhwysfawr ymysg arweinwyr busnesau Cymru a rhanddeiliaid eraill ar y manteision a'r anfanteision o ddefnyddio cwotâu fel arf i fynd i'r afael â'r anghydbwysedd rhwng y rhywiau ar y brig.
- Dylid sicrhau bod darpariaeth ddigonol o hyfforddiant i fusnesau i'w helpu i gynhyrchu deunyddiau niwtral rhwng y ddau ryw, er mwyn mynd i'r afael â'r canfyddiad bod rheolwyr yn wrywaidd.
- Dylid cymryd camau i sicrhau bod amrywiaeth yn parhau ar yr agenda, fel bod camau ar waith i sicrhau nad yw cael rhagor o fenywod mewn arweinyddiaeth yn golygu 'cymryd lle adar o'r unlliw a ehedant i'r unlle', fel petai, h.y. menywod dosbarth canol gwyn yn cymryd lle dynion dosbarth canol gwyn.

3. **Lobïwyr proffesiynol, cyrff gwirfoddol ac elusennau y mae'r Grŵp wedi cwrdd â hwy yn ystod y flwyddyn flaenorol.**

CITB, SgiliauAdeiladu, Unedau 4 a 5, Canolfan Fusnes Pen-y-bont ar Ogwr, Stryd David, Ystâd Ddiwydiannol Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3SH

Tai Ceredigion Cyf, Uned 4, Parc Busnes Pont Steffan, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion,
SA48 7HH

Ymddiriedolaeth y Tywysog, Ocean Way, Caerdydd

Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru (WEN), Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW

**Mae'r sefydliadau hyn wedi cymryd rhan yng nghyfarfodydd y grŵp drwy gydol y flwyddyn.**

# Datganiad Ariannol Blynyddol.

## 2013-2014

## Y Grŵp Trawsbleidiol ar Fenywod yn yr Economi

### Christine Chapman AC

### Christine O'Byrne (Chwarae Teg)

| | | |
|---|---|---|
| Treuliau'r Grŵp. | Dim. | £0.00 |
| Costau'r holl nwyddau. | Dim nwyddau wedi'u prynu. | £0.00 |
| Budd-daliadau a dderbyniwyd gan y grŵp neu gan Aelodau unigol o gyrff allanol. | Ni chafwyd budd-daliadau. | £0.00 |
| Unrhyw gefnogaeth i'r ysgrifenyddiaeth neu gymorth arall. | Ni chafwyd cefnogaeth ariannol. | £0.00 |
| Gwasanaethau a ddarperir i'r Grŵp, fel lletygarwch.<br><br>Talwyd am y lluniaeth a'r cyfleusterau cyfieithu gan Chwarae Teg. | | |
| Dyddiad | Disgrifiad ac enw'r darparwr | Cost |
| | Arlwyo<br>Gwasanaeth Arlwyo<br>Charlton House | £404.82 |
| | Cyfieithu<br>Testun | £504.38 |
| | Cyfanswm costau | £909.20 |